Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth coleg arbenigol

## Coleg Plas Dwbl

**Mynachlog-ddu**
**Clunderwen**
**Sir Benfro**
**SA66 7SE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Plas Dwbl

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Coleg Plas Dwbl |
| Perchennog | Ruskin Mill Trust |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ddarparwr | Coleg arbenigol annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y dysgwyr ar y gofrestr | 16 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/02/2022 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/05/2023 |

Agorwyd Coleg Plas Dwbl, sy'n rhan o Ruskin Mill Trust Group, ym mis Medi 2011. Mae'n goleg arbenigol annibynnol preswyl a dydd ar gyfer pobl ifanc ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ac anawsterau ymddygiadol cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar fferm ar odre mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae'r tir yn cynnwys porfa, coedwig a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth. Mae 16 o ddysgwyr rhwng 16 a 25 mlwydd oed yn mynychu'r coleg ar hyn o bryd. O'r rhain, mae gan ryw hanner y dysgwyr leoliadau preswyl, ac mae tua hanner ohonynt yn mynychu fel dysgwyr dydd. Caiff mwyafrif y dysgwyr eu gosod gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac fe gaiff lleiafrif o ddysgwyr eu gosod gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae tua hanner y dysgwyr yn byw yn nhai preswyl y coleg sydd wedi eu lleoli'n lleol.

Mae'r coleg yn seilio'i athroniaeth addysgol ar egwyddorion sylfaenol yr athronydd a'r gwyddonydd Rudolph Steiner, y polymath John Ruskin a'r ffigur ym maes celf a chrefft, William Morris. Mae'n cynnig cwricwlwm addysg therapiwtig medrau ymarferol, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu trwy weithgareddau go iawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ystod eang o sesiynau ymarferol yn yr efail, y fferm, y gweithdy crefft a'r gegin.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Chwefror 2022, mae'r coleg wedi penodi pennaeth newydd. Cefnogir y tîm arweinyddiaeth gan wyth tiwtor, tua 14 o staff cymorth, cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, therapydd galwedigaethol a therapydd lleferydd ac iaith.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r coleg ym mis Mai 2015.

## Trosolwg

Mae Coleg Plas Dwbl yn darparu amgylchedd digynnwrf a heddychlon sy’n hyrwyddo lles dysgwyr yn effeithiol. Mae staff yn gweithio gyda’i gilydd yn agos i ddarparu lefelau uchel o gymorth ar gyfer dysgwyr ac yn hyrwyddo ethos cynhwysol sy’n dathlu amrywiaeth.

O ganlyniad i’r gofal a’r cymorth a gânt, mae dysgwyr yn teimlo’n ddiogel ac yn mwynhau dod i’r coleg. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu’n rheolaidd, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Dros gyfnod, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu a’u datblygiad personol. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd hynod o gryf yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth.

Mae’r coleg yn darparu cwricwlwm eang lle mae dysgwyr yn elwa ar ystod ysgogol o weithgareddau dysgu wedi’u lleoli ar dir helaeth fferm weithiol. Mae’r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu ystod eang o fedrau sy’n eu paratoi’n dda ar gyfer bywyd fel oedolyn. Fodd bynnag, nid yw’r addysgu bob amser yn gweddu’n ddigon agos i anghenion unigol dysgwyr, ac nid yw tiwtoriaid yn cynllunio’n gyson i ddatblygu medrau dysgwyr yn raddol. Yn ychwanegol, megis dechrau defnyddio strategaethau cyfathrebu y mae’r staff. O ganlyniad, nid yw dysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymhleth yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae arweinwyr y coleg yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r coleg a blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Chwefror 2022, maent wedi darparu arweinyddiaeth gref i ysgogi gwelliannau buddiol mewn cyfnod byr. Er enghraifft, maent wedi gweithredu gwelliannau i safle ac adeiladau’r coleg ac wedi cryfhau’r cymorth arbenigol sydd ar gael i ddysgwyr. Fodd bynnag, megis dechrau y mae llawer o’r mentrau hyn ac mae’n rhy gynnar i werthuso’u heffaith.

Yn ychwanegol, ers yr arolygiad craidd diwethaf yn 2015, bu chwe newid i arweinyddiaeth addysg y coleg. Mae hyn wedi golygu, er gwaethaf cyflymdra gwelliannau diweddar, fod cyfradd gyffredinol y cynnydd yn erbyn argymhellion o ymweliadau monitro blaenorol wedi bod yn rhy araf.

## Argymhellion

A1 Atgyfnerthu'r cynnydd diweddar yn erbyn yr argymhellion o'r ymweliad monitro ym mis Chwefror 2022

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella'r defnydd o strategaethau cyfathrebu i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr ar draws y coleg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r coleg yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Byddai hefyd yn fuddiol dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn y coleg.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros gyfnod, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu a'u datblygiad personol. Maent yn datblygu ystod o fedrau buddiol sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd gwerthchweil yn erbyn targedau yn eu cynlluniau personol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae ymagweddau at gynllunio ar gyfer datblygu medrau dysgwyr yn raddol. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn gwneud cynnydd cyson yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn benodol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau cyfathrebu. Mae'r medrau hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau, a mynegi eu hunain yn briodol. Mewn sesiynau, maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac arweiniad. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn mynegi eu syniadau a'u meddyliau yn huawdl. Er enghraifft, yng nghyfarfod y Cyngor Myfyrwyr, mae dysgwyr yn rhannu syniadau'n hyderus ar gyfer eu seremoni raddio, a llawer ohonynt yn ymgysylltu'n hyderus â phobl sy'n ymweld â'r coleg. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran staff yn defnyddio systemau cyfathrebu ag arwyddion neu symbolau, gan olygu nad yw dysgwyr ag anghenion cyfathrebu mwy cymhleth yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn arbennig o dda. Mae llawer ohonynt yn barchus ac yn mwynhau cwmni pobl eraill. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion a staff, a gyda hiwmor da. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau bach a pharau. Maent yn dilyn arferion yn llwyddiannus, sy'n hwyluso'u trosglwyddiadau yn ystod y dydd ac yn cryfhau eu gallu i reoli eu diogelwch eu hunain yn y coleg.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau darllen. Maent yn meistroli strategaethau priodol ar gyfer darllen geiriau newydd a gallant ddod o hyd i wybodaeth berthnasol o amrywiaeth o destunau. Mae ychydig o ddysgwyr yn dewis eu deunydd darllen eu hunain ac ychydig ohonynt yn mynegi eu barn am lyfrau â brwdfrydedd.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Maent yn ffurfio llythrennau'n dda, yn sillafu geiriau'n gywir a gallant ysgrifennu brawddegau byr am weithgareddau y maent wedi ymgymryd â nhw. Mae ychydig o ddysgwyr yn creu darnau o ysgrifennu effeithiol ac estynedig, fel rhannu gwybodaeth am wylio dolffiniaid yng Ngorllewin Cymru.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymarfer eu medrau rhifedd yn briodol mewn ystod o weithgareddau dysgu ymarferol. Maent yn gwneud defnydd cyson o fedrau rhif sylfaenol yn gywir, er enghraifft wrth gymharu gwrthrychau sy'n fwy neu'n llai na'i gilydd. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr yn amcangyfrif faint y gallai'r ŵy iâr trymaf a gofnodwyd erioed fod wedi pwyso. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau trin data gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn coladu ystod o ddata i gyflwyno gwybodaeth am lawiad dyddiol ar siart bar a chyfeiriad dyddiol y gwynt ar dabl amlder.

At ei gilydd, mae dysgwyr mwy abl yn datblygu medrau digidol perthnasol fel prosesu geiriau a defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil. Maent yn defnyddio swyddogaethau fel alinio testun a gwirio sillafu yn llwyddiannus.

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau creadigol yn arbennig o dda. Er enghraifft, mewn sesiynau crefft, maent yn creu printiau deniadol, ac yn cynhyrchu eitemau swyddogaethol defnyddiol yn yr efail fel offer gardd a raciau cotiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn yr efail pan fyddant yn taro patrwm allan ar gopr i greu argraffiad o gwlwm Celtaidd. Yn ychwanegol, mae dysgwyr yn ymarfer eu medrau echddygol bras yn llwyddiannus mewn gweithgareddau fel torri boncyffion neu wthio berfâu. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwella'u cydsymud a'u ffitrwydd yn briodol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau byw yn annibynnol yn dda mewn ystod o weithgareddau pwrpasol a gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn dysgu mynd o gwmpas y coleg yn annibynnol, yn paratoi cinio iach ar gyfer staff a chyfoedion, ac yn gofalu amdanyn nhw eu hunain yn ddiogel trwy ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch a rheoli eu diogelwch eu hunain yn y coleg. Mae ychydig o ddysgwyr yn elwa ar brofiad gwaith ar safle'r coleg, ac o fewn y gymuned leol yn ogystal. Mae'r medrau hyn yn cynorthwyo dysgwyr yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae llawer o ddysgwyr wedi cyflawni unedau achredu mewn ystod o gymwysterau sy'n ymwneud yn briodol ag anghenion, diddordebau a galluoedd unigol dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys achredu medrau ar gyfer bywyd a gwaith.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae mwyafrif y dysgwyr sydd wedi gadael y coleg wedi symud ymlaen i gyrchfannau wedi'u cynllunio'n briodol sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u galluoedd yn dda, gan gynnwys lleoliadau gwaith a gefnogir neu leoliadau addysg eraill.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd digynnwrf a heddychlon sy'n hyrwyddo lles ac agweddau cadarnhaol dysgwyr at ddysgu yn effeithiol. Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau mynychu'r coleg ac yn teimlo'n ddiogel mewn ystod o leoliadau tra byddant ar y safle. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n teimlo'n anniogel tra byddant yn y coleg. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt, ac yn gwybod bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi, er enghraifft wrth benderfynu creu barcutiaid yn ystod sesiynau crefft i'w hedfan yng ngŵyl y Sulgwyn.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau cymdeithasol cryf mewn sesiynau, ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn barchus â'i gilydd a'r tîm staff. Mae'r medrau cymdeithasol cryf hyn yn amlwg pan fydd dysgwyr yn cyrraedd y coleg ar ddechrau'r diwrnod ac wrth iddynt drosglwyddo rhwng gweithgareddau yn ystod y dydd. Maent yn sgwrsio'n hyderus ac yn gwrtais ag ymwelwyr, gan ddisgrifio'n hapus eu hardaloedd gwaith a'r gweithgareddau y maent yn eu mwynhau fwyaf.

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae dysgwyr yn ffurfio perthnasoedd gweithio cryf gyda staff. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu lles a'u hagweddau at ddysgu, ac yn golygu eu bod yn ymgysylltu'n hapus ac yn hyderus â bywyd coleg. Maent yn hapus a chyfforddus mewn sesiynau, ac yn gyffrous i gymryd rhan. Mae ychydig o ddysgwyr yn trosglwyddo'r agweddau cadarnhaol hyn i leoliadau profiad gwaith allanol. Tra byddant yno, maent yn gwrando'n astud, yn cwblhau gwaith yn annibynnol, yn gofyn am gymorth ac yn siarad yn glir am sut maent yn mwynhau'r rôl hon. Maent yn dilyn arferion perthnasol yn llwyddiannus ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu'n rheolaidd, yn cyrraedd sesiynau'n brydlon, yn barod i ymgysylltu ac yn ymdawelu'n dda i wneud eu gweithgareddau. Mae dysgwyr yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'i gilydd ac yn gweithio'n effeithiol mewn parau neu mewn grwpiau bach, er enghraifft wrth gyfrif arian a godwyd o werthu wyau ar y fferm yn gywir. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn mynychu sesiynau amserlenedig yn gyson, ac mae hyn yn effeithio ar y cynnydd a wnânt.

Mae tua hanner y dysgwyr yn ymgysylltu'n rheolaidd â sesiynau Cyngor y Coleg. Yn ystod y sesiynau hyn, mae dysgwyr yn chwarae rhan werthfawr mewn gwneud penderfyniadau ac yn rhannu syniadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu cyfnod yno, er enghraifft cynllunio tripiau coleg a threfnu digwyddiadau graddio ar ddiwedd blwyddyn. Mae'r dysgwyr hyn yn cyflawni eu cyfrifoldebau â balchder ac angerdd. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n cael cyfleoedd addas i ymgymryd â rolau arwain yn y coleg. Hefyd, nid oes cynrychiolaeth ddigonol o ddysgwyr sydd ag anghenion cyfathrebu mwy cymhleth yn sesiynau'r Cyngor, ac mae'r cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn gyfyngedig.

Mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau byrbryd iach priodol yn ystod amseroedd egwyl ac yn bwyta prydau iach gyda'i gilydd i ginio, o gynnyrch y maent yn ei dyfu ar y fferm ac yn y tynelau polythen. Mae dysgwyr yn chwarae rhan annatod yn y broses gwneud penderfyniadau ynghylch pa fyrbrydau a phrydau sydd ar gael iddynt trwy gydol y dydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae Coleg Plas Dwbl yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol lle mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o weithgareddau dysgu mewn lleoliadau ystyrlon a realistig, gan gynnwys fferm, ardal arddwriaeth a gefail. Mae tir ac adnoddau helaeth y coleg yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu ystod eang o fedrau, gan gynnwys eu hannibyniaeth, medrau corfforol, creadigol a medrau yn gysylltiedig â gwaith.

Mae tiwtoriaid yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd helaeth a deniadol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau ymarferol fel pwyso a phrisio sebon wedi'i wneud â llaw i'w werthu, a mesur gwiail helyg ar gyfer eu gweithgareddau gwehydda. Mae tiwtoriaid yn darparu ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol sy'n hyrwyddo annibyniaeth a medrau byw yn annibynnol dysgwyr yn briodol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn paratoi prydau iach ar gyfer staff a chyfoedion ac yn ymarfer eu medrau garddio yn yr ardal arddwriaeth.

Mae'r coleg yn cynllunio dathliadau a digwyddiadau rheolaidd sy'n cyfoethogi arlwy'r cwricwlwm craidd, er enghraifft trwy wyliau tymhorol, fel Gŵyl Farthin lle mae pob un o'r dysgwyr yn creu ac yn goleuo'u lanternau eu hunain. Mae'r coleg yn darparu amgylchedd ar gyfer dysgwyr sy'n cydnabod ac yn dathlu ei gyd-destun a'i ddiwylliant Cymreig penodol, er enghraifft trwy baratoadau ar gyfer perfformiad coleg o 'Y Mabinogi'.

Mae'r coleg wedi gwneud newidiadau diweddar i gryfhau'r cwricwlwm. Mae cyrsiau newydd, gan gynnwys medrau byw yn annibynnol, menter gymdeithasol a drama, yn ategu arlwy craidd y coleg. Fodd bynnag, nid yw ymagweddau at gynllunio ar gyfer datblygu medrau dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol. Hefyd, nid yw cynlluniau cwricwlwm a chynlluniau dysgu ar draws y coleg yn mynd i'r afael ag anghenion y dysgwyr mwyaf cymhleth yn ddigon da.

Yn rhannol oherwydd tarfu o ganlyniad i bandemig COVID-19, nid yw'r arlwy profiad gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae ychydig o ddysgwyr yn elwa ar leoliadau profiad gwaith allanol, fel cynnal y tir ar safle lleol o ddiddordeb hanesyddol. Mae'r lleoliadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr drosglwyddo a datblygu eu medrau mewn cyd-destunau perthnasol, ac yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau.

Mae staff yn y coleg yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a gofalgar â dysgwyr. Dangosant ddealltwriaeth glir o anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn sefydlu arferion buddiol sy'n helpu creu amgylchedd dysgu digynnwrf. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu. Mae gweithwyr cyswllt yn darparu cymorth sylwgar i ddysgwyr. Maent yn hyrwyddo lles ac ymgysylltiad dysgwyr yn llwyddiannus ac yn arwain gweithgareddau dysgu yn effeithiol.

Pan mae'r cynllunio, yr addysgu a'r asesu yn effeithiol, mae tiwtoriaid yn cynllunio'n greadigol i ennyn diddordeb dysgwyr mewn gweithgareddau ystyrlon sy'n diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu ar draws y coleg yn rhy amrywiol. Mewn ychydig o sesiynau, nid yw'r addysgu'n gweddu'n ddigon da i anghenion dysgwyr unigol. Yn yr achosion hyn, nid yw gweithgareddau cynllunio ac addysgu yn herio nac yn ennyn diddordeb dysgwyr yn ddigon da.

Mae'r systemau asesu a sefydlwyd yn y coleg yn ddiweddar yn cofnodi cynnydd dysgwyr yn briodol. Mae'r systemau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i lywio cynllunio ac asesu tiwtoriaid. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i lywio'u cynllunio ar gyfer datblygu medrau dysgwyr yn raddol.

Mae tiwtoriaid a gweithwyr cyswllt yn rhoi adborth llafar anogol i ddysgwyr, sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu cymell yn eu dysgu. Mae llawer o staff yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn defnyddio holi'n briodol i atgyfnerthu dysgu. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feddwl am eu gwaith a diwygio, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn diwallu anghenion dysgwyr ac nid yw'n nodi'r camau nesaf mewn dysgu yn gyson.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Nod y coleg yw darparu cymuned ddysgu ymarferol a therapiwtig i ddysgwyr i'w helpu i ddatblygu empathi, hunanofal a deall rhythmau'r tymhorau. Mae ethos ac amgylchedd y coleg yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u lles yn effeithiol.

Mae staff yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gref o anghenion a diddordebau dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddarparu cymorth gofalgar i arwain dysgwyr yn sensitif, tra'n sicrhau eu bod yn aros mor annibynnol â phosibl hefyd.

Ers adeg yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi cryfhau ei gymorth arbenigol trwy ychwanegu therapi galwedigaethol a therapi lleferydd ac iaith. Mae'r therapyddion hyn wedi arwain datblygu cynlluniau cymorth newydd, sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad buddiol i staff i roi'r cymorth gorau i ddysgwyr, er enghraifft gydag ymagweddau at gyfathrebu, cymorth â lles a diwallu anghenion synhwyraidd dysgwyr. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu gweithredu y mae'r cynlluniau hyn ar draws y coleg.

Mae'r coleg yn myfyrio ar, ac yn cyfathrebu am, gynnydd dysgwyr mewn nifer o ffyrdd buddiol. Cynhelir cyfarfodydd tymhorol gyda rhanddeiliaid allanol i adolygu cynnydd, ymgysylltiad a lles dysgwyr, yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd i rieni. Yn ogystal â hyn, mae'r coleg yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd 'astudio myfyrwyr'. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle buddiol i rannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff fyfyrio ar sut orau i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Mae arweinwyr wedi gweithredu systemau newydd i olrhain gwybodaeth allweddol am ddysgwyr, fel ymddygiad, presenoldeb, digwyddiadau arwyddocaol a chynnydd yn erbyn targedau. Megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae'r systemau hyn.

Hefyd, dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd cynlluniau i wella presenoldeb ychydig o ddysgwyr nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd.

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr rannu adborth gydag arweinwyr i wneud newidiadau, er enghraifft, trwy Gyngor y Coleg, holiaduron i ddysgwyr neu fentrau i ddatblygu'r amgylchedd. Fodd bynnag, nid yw ymagweddau presennol yn cynnwys pob un o'r dysgwyr yn gyson, ac ni chânt eu gweddu'n ddigon da i anghenion dysgwyr ag anghenion cyfathrebu mwy cymhleth.

Mae'r coleg yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gref o sut i aros yn ddiogel ac yn iach. Mae dysgwyr yn dysgu sut i fwyta'n iach yn ogystal â sut i baratoi prydau iach o fewn cyd-destun realistig fferm weithiol. Hefyd, mae dysgwyr yn dysgu sut i reoli risg yn dda mewn nifer o leoliadau, er enghraifft sut i ddefnyddio ffeiliau a morthwylion yn ddiogel yn yr efail. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn darparu cyfleoedd yn gyson i'r holl ddysgwyr ddysgu sut i aros yn ddiogel mewn cyd-destunau eraill, er enghraifft ym maes meithrin perthnasoedd iach a dysgu sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae'r coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu. Mae arweinwyr wedi sefydlu cymuned lle mae dysgwyr a staff yn teimlo'n ddiogel. Ers adeg yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi cryfhau prosesau a pholisïau yn y maes hwn. Hefyd, maent wedi gweithredu prosesau sicrhau ansawdd helaeth i oruchwylio'r holl agweddau ar ddiogelu.

Mae arweinwyr yn asesu'r risgiau a achosir gan radicaleiddio yn ofalus. Pan fydd angen, maent yn asesu risg dysgwyr unigol ac yn defnyddio partneriaid annibynnol o'r ymddiriedolaeth i gefnogi, monitro a gwerthuso arfer yn y maes hwn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Adeg yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Chwefror 2022, dywedodd arolygwyr fod y coleg wedi profi tarfu sylweddol ar reolaeth ac arweinyddiaeth strategol y coleg. Roedd hyn yn cynnwys yr heriau a gafwyd yn sgil y pandemig, yn ogystal â chyfnod yn ystod 2021 heb bennaeth, pan oruchwyliwyd y coleg gan staff allanol o Ruskin Mill Trust.

Ers yr ymweliad monitro hwnnw, mae arweinwyr wedi darparu arweinyddiaeth gref i ysgogi gwelliannau buddiol mewn cyfnod byr. Maent wedi rhoi cynllun adfer ar waith ar gyfer y coleg, gan sicrhau bod camau gweithredu'n blaenoriaethu diogelwch a lles dysgwyr a staff. Ar yr un pryd, maent wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag argymhellion o'r ymweliad monitro blaenorol. Er mai megis dechrau cael eu datblygu y mae llawer o'r camau gweithredu hyn, mae'r cynnydd hwn yn golygu bod y coleg bellach mewn lle diogel i ddysgu a gweithio.

Yn ychwanegol, ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi gweithredu gwelliannau buddiol i safle ac adeiladau'r coleg. Maent wedi gwella arwyddion o gwmpas y coleg, ac wedi datblygu rhesymeg gydlynus ar gyfer lleoliad derbynfa'r coleg ac aildrefnu gofodau addysgu trwy gydleoli medrau hanfodol, therapi a medrau byw yn annibynnol. O ganlyniad, mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol a chroesawgar. Fodd bynnag, mae ychydig o ardaloedd o gwmpas y safle mewn cyflwr gwael o hyd ac nid ydynt yn diwallu anghenion staff na dysgwyr.

Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r coleg a blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Maent wedi penodi tîm o arweinwyr canol i gefnogi gwaith y pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol. Gyda'i gilydd, mae'r tîm hwn wedi cryfhau trefniadau i fonitro a sicrhau ansawdd gwaith y coleg. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae defnyddio data i werthuso'r gwaith hwn. Yn benodol, nid yw arweinwyr yn gwerthuso'r cynnydd y mae dysgwyr a grwpiau o ddysgwyr yn ei wneud, nac effaith yr addysgu ar hyn, yn ddigon craff.

Mae arweinwyr yn weladwy ac mae ganddynt drefniadau gwerthfawr i hyrwyddo cyfathrebu ar draws y coleg. Mae briffiau dyddiol yn rhoi gwybodaeth gyfoes i staff am anghenion a lles dysgwyr. Mae cyfarfodydd staff wythnosol a chyfarfodydd astudio myfyrwyr yn canolbwyntio'n briodol ar faterion gweithredol a strategol, ac ar gynnydd a lles dysgwyr. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod staff yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i ddarparu lefelau uchel o gymorth i ddysgwyr a hyrwyddo ethos cynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth.

Mae'r coleg yn elwa ar ystod o wasanaethau a ddarperir gan Ruskin Mill Trust mewn meysydd fel adnoddau dynol, hyfforddiant, diogelu ac iechyd a diogelwch. Ceir ymweliadau rheolaidd gan gyfarwyddwr colegau'r Ymddiriedolaeth, ac aelodau eraill o dîm ansawdd yr Ymddiriedolaeth, ac mae pennaeth y coleg yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm gweithredol yr Ymddiriedolaeth. O ganlyniad, mae ymddiriedolwyr yn datblygu dealltwriaeth well o anghenion y coleg yng Nghymru, ac yn fwy abl i ddarparu cymorth a her berthnasol.

Mae staff yn elwa ar gael mynediad at ystod eang o ddysgu proffesiynol gwerthfawr a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth mewn meysydd sy'n hyrwyddo'u dealltwriaeth o anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, yn ogystal ag ymagwedd y coleg at addysg therapiwtig medrau ymarferol. Mae digwyddiadau dysgu proffesiynol diweddar hefyd wedi dechrau mynd i'r afael yn uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r coleg ac yn helpu tiwtoriaid i ddatblygu'r medrau a'r wybodaeth i gefnogi'r rhain. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a gaiff tiwtoriaid a gweithwyr cyswllt i arsylwi pobl eraill mewn lleoliadau tebyg a myfyrio ar eu harfer eu hunain mewn cysylltiad â hyn.

Mae arweinwyr y coleg yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Maent wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth sy'n nodweddiadol Gymreig sy'n dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant, ac sydd wedi'i lleoli'n gadarn yn ei chymuned leol. Maent yn dechrau creu rhwydwaith o bartneriaethau ag ysgolion a cholegau yn lleol er budd dysgwyr, yn cryfhau llwybrau dilyniant ac yn rhannu arfer. Megis dechrau datblygu y mae llawer o'r gwaith hwn.

Ers yr arolygiad craidd diwethaf yn 2015, bu chwe newid i arweinyddiaeth addysg y coleg. Mae hyn wedi golygu bod arweinwyr unigol wedi'i chael yn anodd atgyfnerthu a chynnal gwelliannau o un ymweliad monitro i un arall. O ganlyniad, er gwaethaf cyflymdra gwelliant diweddar, mae cyfradd gyffredinol y cynnydd yn erbyn argymhellion o ymweliadau monitro er 2015 wedi bod yn rhy araf.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn staff addysgu a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â pherchnogion, arweinwyr y coleg ac aelodau unigol o staff addysgu a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y coleg
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu coleg
- yn ymweld â sesiynau, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r coleg
- yn ystyried cynllun gwella'r coleg ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r coleg wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r coleg, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff goruchwylio, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/07/2023